ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi Cyfathrebu Allanol Athrofa Padarn Sant**
Awdur(on) (enw, swydd deitl a sefydliad):	Mark Griffiths, Deon Meithrin Disgyblion, Athrofa Padarn Sant
Fersiwn:	Fersiwn 1
Statws y ddogfen:	Datblygu
Dyddiad Cymeradwyo:	
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol
Dyddiad rhoi mewn grym:	
Dyddiad Adolygiad nesaf:	Blynyddol
Fersiwn Disodlwyd	
Dogfennau Perthnasol:	Polisi TGCh Athrofa Padarn Sant Polisi Diogelu Data Corff y Cynrychiolwyr Polisi Cadw Data Corff y Cynrychiolwyr

Hanes y Ddogfen:

Fersiwn	**Dyddiad**	**Awdur**	**Nodiadau ar yr Adolygiadau**
Fersiwn 1	30/09/21	Mark Griffiths, Deon Meithrin Disgyblion	Drafft cyntaf

Polisi Cyfathrebu Allanol Athrofa Padarn Sant

Cynnwys

Gwybodaeth Gyffredinol 3

Diffiniadau 3

Storio Data 3

Meysydd Casglu Data Personol 4

Yr Eglwys yng Nghymru 4

Cylch Gwaith Addysgol Ehangach 4

Disgyblaeth 5

Cysylltu â'r rhai sydd ar y Gronfa Ddata Dysgwyr 5

Yn benodol i'r Rhaglenni 5

Yn benodol i'r Ardaloedd Gweinidogaeth 5

Torri'r Polisi 6

Rhagor o Wybodaeth 6

Gwybodaeth Gyffredinol

Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a phrif ddarpariaethau Deddf Diogelu Data newydd y Deyrnas Unedig 2018, i rym ar 25 Mai 2018. Mae'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes sicrhau bod y ffyrdd y maen nhw'n casglu, yn rheoli ac yn defnyddio unrhyw ddata personol yn cydymffurfio â safonau diogelu data newydd, uwch. Diben y GDPR yw diogelu hawliau preifatrwydd a buddiannau unigolion ac mae'n sicrhau bod unrhyw fusnes sy'n masnachu o fewn yr UE yn prosesu data personol mewn ffordd sy'n parchu'r hawliau hyn, gyda chosbau llym i'r rhai sy'n torri'r ddeddfwriaeth neu eu prosesau data eu hunain. Un elfen allweddol yn y ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar waith yr Athrofa yw Erthygl 5 sy'n dweud hyn:

1. *Personal data shall be:*

   (b) Collected for the specified, explicit, and legitimate purposes and not further processed in a manner that is incompatible with those purposes; further processing for archiving purposes in the public interest, scientific or historical research purposes or statistical purposes, shall not be considered to be incompatible with the initial purposes.

Diffiniadau

- *Athrofa Padarn Sant*: Athrofa Padarn Sant yw'r gangen o'r Eglwys yng Nghymru sy'n darparu hyfforddiant, paratoad ac adnoddau.
- *Dysgwyr*: Mae'r grwpiau penodol y mae'r Athrofa yn gyfrifol am eu hyfforddi, eu paratoi a darparu adnoddau ar eu cyfer yn cael eu hamlinellu yn yr adrannau canlynol, ond o ran cyfleustra maen nhw'n cael eu galw ar y cyd yn 'Ddysgwyr'.
- *Cronfa Ddata Dysgwyr*: Dyma'r cyfleuster storio canolog ar gyfer y data sydd gan yr Athrofa ynglŷn â'i dysgwyr.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r data y mae'r Athrofa'n ei gasglu a'i brosesau ynglŷn â'i *Dysgwyr*.

Storio Data

Mae erthyglau 25, 26 a 32 o'r GDPR yn ymwneud â diogelu a phrosesu data. Mae sawl maes arall y tu allan i'r Gronfa Ddata Dysgwyr lle gall data gael ei gadw:

1. Data'n sy'n cael ei brosesu, er enghraifft, rhestrau cofrestru ar gyfer PCDDS.
2. Er mwyn cofnodi ymholiadau cychwynnol ar gyfer cyrsiau amrywiol cyn i'r unigolyn ymrestru'n iawn.
3. Cofnodion cyllid ynghylch ffioedd myfyrwyr unigol.
4. Meddalwedd cyfrifon Corff y Cynrychiolwyr.
5. Cofnodion myfyrwyr sy'n cael eu cadw ar SharePoint, sy'n cynnwys ffurflenni nawdd yr esgobaethau, ceisiadau, adroddiadau i'r esgobion ar fyfyrwyr unigol, etc.

6. Yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir (Moodle) lle mae gwybodaeth am y cyfranogwyr yn cael ei storio er mwyn i'r dysgwyr gael mynediad i'r canlynol:
    - Gwybodaeth sy'n berthnasol i unrhyw fodiwlau y maen nhw'n eu hastudio
    - Canllawiau a pholisïau academaidd ynglŷn â'u rhaglen ddysgu
    - Turnitin er mwyn uwchlwytho aseiniadau i'w hasesu
7. Mae cronfeydd data byrdymor yn cael eu creu hefyd o'r Gronfa Ddata Dysgwyr i lunio cofrestrau presenoldeb ar gyfer cyrsiau preswyl. Ond mae'r cronfeydd data hyn yn cael eu dileu pan fydd y cwrs penodol wedi'i gwblhau a bod y presenoldeb wedi'i gofnodi ar y Gronfa Ddata Dysgwyr.

Ni waeth ble mae'r data'n cael ei storio, mae'r un polisïau ynglŷn â'i gasglu, ei storio a'i ddefnyddio yn berthnasol. Mae hyn yn cael ei egluro'n llawn ym Mholisi Cadw Data yr Eglwys yng Nghymru.

Meysydd Casglu Data Personol

Yr Eglwys yng Nghymru

Mae Athrofa Padarn Sant wedi cael mandad gan Esgobion yr Eglwys yng Nghymru i ddarparu hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i bawb y mae'r Eglwys yng Nghymru wedi'u dewis ar gyfer hyfforddiant neu wedi'u hordeinio a/neu wedi'u trwyddedu ar gyfer y weinidogaeth o fewn ei heglwysi – mae'r unigolion hyn yn cael eu hadnabod fel *Dysgwyr*. Mae gwybodaeth amdanyn nhw'n cael ei storio'n ddiogel ar *Gronfa Ddata Dysgwyr* yr Athrofa ac yn cael ei defnyddio'n benodol ar gyfer eu hyfforddi, eu paratoi a darparu adnoddau iddyn nhw.

Cylch Gwaith Addysgol Ehangach

Mae'r Athrofa'n darparu hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig mewn diwinyddiaeth ac arbenigeddau perthynol ar draws y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt, yn ychwanegol at gyrsiau heb eu hachredu megis Dechrau Caplaniaeth. Mae data am y myfyrwyr hyn yn cael ei gadw ar y *Gronfa Ddata Dysgwyr* ac mae'n cynnwys:

- gwybodaeth gysylltu a gwybodaeth bersonol y mae ei hangen er mwyn gweinyddu'r broses ymgeisio.

- gwybodaeth y mae ei hangen i fwydo penderfyniadau am addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer eu rhaglen astudio ddewisol.
- monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Disgyblaeth

Mae trydydd categori o ddata sy'n cael ei storio ar y *Gronfa Ddata Dysgwyr* ac sydd yno i alluogi'r Athrofa i gyfathrebu â'r rhai sydd wedi *gofyn yn unswydd* am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd hyfforddi ac adnoddau yn eu maes penodol. Y maes sydd i'w nodi yma yw *cydsyniad gwybodus,* ac mae'n dod o dan Erthygl 7 o'r GDPR. Er mwyn i'r Athrofa gadw gwybodaeth o dan y categori hwn mae angen *cydsyniad gwybodus*, a gellir sicrhau hwnnw drwy ofyn i'r rhai sydd â chysylltiad â'r Athrofa i nodi yr hoffen nhw gael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant ac adnoddau yn y dyfodol. Mae'n bwysig nodi bod modd tynnu cydsyniad yn ôl hefyd.

Cysylltu â'r rhai sydd ar y Gronfa Ddata Dysgwyr

Gyda'r darpariaethau uchod ar waith, mae'r *Gronfa Ddata Dysgwyr* yn arf effeithiol ar gyfer cysylltu a chyfathrebu ag unigolion. Ond mae dwy elfen hanfodol i hyn:

- Erthygl 5 – Dim ond at y diben y cafodd ei gasglu ar ei gyfer y caniateir defnyddio'r data, hynny yw hyfforddi (gan gynnwys addysg), paratoi a darparu adnoddau.
- Erthygl 32 – Rhaid i'r gwaith o brosesu data personol gael ei ddiogelu. Gan hynny, rhaid i nifer y bobl sydd â chaniatâd i weld, prosesu ac adfer data gael ei gyfyngu'n briodol.

Er nad yw'n cael ei grybwyll yn benodol yn y ddeddfwriaeth, mae'n bwysig nad yw'r rhai ar y *Gronfa Ddata Dysgwyr* yn cael eu boddi dan wybodaeth a bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei hanfon allan yn briodol, er enghraifft, fydden ni ddim yn anfon gwybodaeth gwerthu ar ran trydydd partïon. Gan hynny, mae'r patrymau cyfathrebu a ganlyn ar waith:

Yn benodol i'r Rhaglenni

Mae gwybodaeth yn mynd allan o'r adrannau FLM, NLM, MD, Israddedig ac Ôl-raddedig i'r rhai sy'n rhan o'u rhaglenni yn ôl yr angen.

Yn benodol i'r Ardaloedd Gweinidogaeth

Mae yna adegau pan fo meysydd pwnc penodol yn cael eu targedu, e.e. Hyfforddiant Gweithwyr Ieuenctid, Adnoddau i bob Gweinidog Trwyddedig, digwyddiadau Cymunedol Arloeswyr. Er hynny, mater i'r Uwch Dîm Arwain yw

cytuno i anfon allan at gynulleidfaoedd penodol, a dylai ceisiadau gael eu cyflwyno/anfon i gyfarfod wythnosol y Tîm.

Torri'r Polisi

Gellir barnu bod torri'r polisi hwn yn drosedd ddisgyblu a gellid ymdrin â hynny o dan y polisi disgyblu priodol a'i weithdrefnau perthynol. Pan fydd trosedd wedi digwydd dan gyfraith y Deyrnas Unedig, gall gael ei hadrodd i'r heddlu neu awdurdod priodol arall hefyd. Gan hynny, os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau cyn anfon neges ebost neu cyn anfon drwy'r post at dderbynwyr allanol.

Rhagor o Wybodaeth

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, ac felly yn dod o dan bolisïau'r Corff hwnnw. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gweithredu o dan un Polisi Diogelu Data sydd i'w gael yn: https://www.churchinwales.org.uk/privacy-notice/.
Mae rhagor o fanylion am sut mae Athrofa Padarn Sant yn ymdrin â data ar gael drwy ddilyn yr un ddolen o dan yr adran Hysbysiadau Preifatrwydd: Myfyrwyr Athrofa Padarn Sant, ynghyd â dogfennau perthynol eraill.